APELIO YN ERBYN GWRTHOD CANIATÂD CYNLLUNIO

Mae gwrthod caniatâd cynllunio'n newyddion drwg – ac yn un rheswm pam ddylech gymryd cyngor arbenigol proffesiynol. Beth nesaf felly?

- Un dewis fyddai trafod a chyflwyno cais newydd – diwygiedig – am ganiatâd cynllunio. Gallwch wneud hyn yn rhad ac am ddim o fewn 12 mis ond dylai'r cynllun newydd fod yn sylweddol wahanol. Gallai hyn fod yn ddewis cyflym i apêl lawn.

- I apelio yn erbyn gwrthod caniatâd cynllunio, rhaid i chi wneud hyn o fewn 6 mis o ddyddiad y gwrthod. Yr Arolygiaeth Gynllunio fydd yn ystyried yr apêl.

- Gellir apelio yn erbyn gwrthod caniatâd cynllunio mewn tair ffordd wahanol, sef sylwadau ysgrifenedig, gwrandawiad neu ymchwiliad cyhoeddus. Gallwch fynegi dewis ond mae'n bosibl y cewch eich gwrthod.

- Bydd gofyn i chi gyflwyno ffurflen gais apelio yn erbyn caniatâd cynllunio a datganiad apelio. Yn y datganiad, rhowch resymau dros wrthwynebu'r gwrthod a defnyddiwch gyfraith gynllunio a pholisïau cynllun lleol y Cyngor.

- Bydd yr arolygydd yn ymweld â'r safle i weld yr eiddo neu'r datblygiad.

- Mae penderfyniad yr arolygydd yn derfynol – oni bai y cafwyd camgymeriad cyfreithiol. Rhoddir y penderfyniad o fewn 3 mis fel arfer neu'n hwy os yw'n ymchwiliad cyhoeddus.